# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adolygiad Polisi Diogelu |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Swyddog perthnasol:** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Chwefror 2024 |

**1. Penderfyniad a geisir:**

Mabwysiadu y " Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod" ( "Polisi Diogelu") (Atodiad1) diwygiedig ynghyd a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Strategol Diogelu (Atodiad 2).

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Mae'r Polisi Diogelu yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014).

Ym mis Mehefin 2023 fe gychwynnodd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gwaith o adolygu Polisi Diogelu cyfredol y Cyngor, ar y cyd ag aelodau'r Panel Strategol Diogelu. Gyda'r fersiwn presennol yn addasiad o Bolisi a grëwyd yn 2013, penderfynwyd ei bod yn amserol i baratoi polisi o'r newydd yn hytrach na diweddaru'r ddogfen yn unol â'r drefn arferol.

Oherwydd hynny gofynnwn am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn mabwysiadu'r Polisi newydd.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Prif flaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, cam-drin domestig a cham-fanteisio.

Mae gan bawb yng Nghyngor Gwynedd gyfrifoldeb am greu amgylchedd sy’n sicrhau hyn, gan arwain at blentyn neu oedolyn sy’n llai tebygol o gael ei gam-drin. Caiff y trefniadau diogelu hyn eu hamlinellu yn y polisi hwn, ac maent yn gyfrifoldeb ar bob gwasanaeth o fewn Cyngor Gwynedd. Y Panel Strategol Diogelu sy’n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r Panel hwn yn atebol i'r Cabinet.

Yn Hydref 2023 bu gweithdy o dan arweiniad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mynychodd cynrychiolaeth o swyddogion ar draws y Cyngor, gan gynnwys Pennaeth Cynorthwyol Plant - Diogelu ag Ansawdd ac Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl.

Yn ystod y gweithdy fe gytunwyd ar sawl newid:

- Atega’r Polisi Diogelu diwygiedig fod gan <u>bawb</u> gyfrifoldeb i ddiogelu, ond noda hefyd fod cyfrifoldebau penodol ar gyfer pob Cynghorydd ac aelod o staff, yn ogystal â manylu ar sut y dylai diogelu gael ei adlewyrchu mewn trefniadau contractio a chomisiynu.
- Amlygwyd y disgwyliadau i staff Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr i weithredu yn ôl yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn bob amser, boed yn ystod oriau gwaith neu fel arall.
- Roedd aneglurder yn yr hen fersiwn rhwng diogelu ac amddiffyn, ac mae hynny wedi derbyn sylw bellach. Mae’r Polisi yn gwneud hi’n glir mai diogelu sydd o dan sylw, a bod gweithdrefnau eraill I'w dilyn wrth “amddiffyn”.
- Mae’r Polisi diwygiedig yn amlygu rôl y Panel Strategol Diogelu. Penderfynwyd addasu Cylch Gorchwyl y Panel, a rhoddwyd sylw pellach i’r aelodaeth er mwyn gwneud yn siŵr fod uwch swyddogion ar draws y Cyngor yn ogystal ag arbenigwyr yn y maes diogelu Plant ac Oedolion yn cael gwahoddiad.
- Cryfhau’r trefniadau adrodd a monitro. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet yn flynyddol. Mi fydd yr Adroddiad hwnnw hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Llawn yn flynyddol.
- O ran Polisïau Diogelu adrannau unigol, nodwyd bod gan y Cyngor un Polisi corfforaethol. Fodd bynnag, gall yr adran gyflwyno eu polisi penodol eu hunain os bernir bod angen hynny.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Bydd mabwysiadu’r Polisi newydd yn sicrhau bod gan y Cyngor weithdrefn ddiogelu gadarn yn ei lle, ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg.

Bu ymgynghori anffurfiol ar y Polisi diwygiedig gydag aelodau o'r Panel Strategol Diogelu ag aelodau o’r Grŵp Gweithredol Diogelu. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi gan nad yw’r newidiadau yn effeithio yn uniongyrchol ar y gwasanaethau a gynigir i’r cyhoedd.

Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (“Y Ddeddf”) (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cyngor dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.

Ni baratowyd asesiad effaith cydraddoldeb o’r newydd, gan fod y gofyn statudol ar y Cyngor yn aros yr un fath, ond bod y newidiadau cynigwyd yn rhoi eglurder i staff ac Aelodau Etholedig ynglŷn a’u cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod.

### 3.3 Camau nesaf

- Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo’r Polisi, bydd copi yn mynd gerbron y Cyngor Llawn nesaf. Teimlir fod hyn yn gam pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau etholedig.
- Bydd angen gwaith pellach er mwyn hyrwyddo’r Polisi diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor.
- Mae sawl atodiad i’r Polisi ac mae’r Panel yn bwriadu comisiynu’r Grŵp Gweithredol i adolygu’r rhain, er enghraifft, ail-edrych ar y ffordd rydym yn mesur effaith a monitro data.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn cefnogi’r penderfyniad a geisir. Nid oes mater yn ymwneud â phriodoldeb ariannol sydd angen eu tynnu i sylw’r Cabinet.

### 4.2 Swyddog Monitro

Mae’r Polisi Diogelu yn cefnogi ystod o faterion sydd yn ymwneud a diogelwch a lles ein trigolion. Rwy’n gefnogol o’r hyn sydd yn cael ei argymell.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Polisi Diogelu Drafft

Atodiad 2 - Cylch Gorchwyl y Panel Strategol Diogelu